## Sut i gwyno

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi mynd drwy'r broses gwynion lawn yn eich carchar yn gyntaf.
- Llenwch ffurflen yr IPCI gan ddweud wrthym pam rydych yn anfodlon ag ymateb y carchar.
- Anfonwch ffurflen yr IPCI a chopïau o'ch ffurflenni COMP ac ymatebion.

**Rydym wedi cyfieithu'r wybodaeth hon i nifer o ieithoedd. Os na allwch ddod o hyd i daflen yn eich iaith chi, cysylltwch â ni.**

## I ble y dylech anfon eich cwyn

**IPCI, Third Floor,**
**10 South Colonnade,**
**London, E14 4PU**

Gallwch anfon llythyr at IPCI yn ddi-dâl. Telir cost postio'r llythyr gan y carchar.

Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom gan na allwn eu dychwelyd.



Independent Prisoner Complaint Investigations

# Ddim yn fodlon â'r modd yr ymdriniodd y carchar â'ch cwyn?

# Gallai Ymchwiliadau Annibynnol i Gwynion Carcharorion (IPCI) helpu.

**Yn ymchwilio'n annibynnol i gwynion ar eich rhan**

# Oeddech chi'n gwybod?

- Bob blwyddyn, mae miloedd o garcharorion yn cysylltu ag IPCI i gael help â'u cwynion.
- Rydym yn ymchwilio i'r cwynion hyn ac yn gwneud argymhellion i garchardai.
- Rydym yn cadarnhau mwy na chwarter yr holl gwynion rydym yn eu derbyn, a bron i hanner yr holl gwynion eiddo.
- Gallwn hefyd gyfryngu, lle bo'n briodol, er mwyn helpu i ddatrys anghydfodau ynglŷn â chwynion.
- Os byddwn yn cytuno â chi, efallai y cewch ymddiheuriad gan y carchar, iawndal am eiddo a gollwyd neu a ddifrodwyd, neu newid yn y ffordd y mae'r carchar yn gweithio.

# Am IPCI

- Mae IPCI yn gwbl annibynnol. Nid ydym yn gweithio i'r Gwasanaeth Carchardai na HMPPS.
- Mae IPCI yn dod dan Reol 39, sy'n golygu na chaiff eich llythyrau atom ni eu darllen gan y carchar.
- Os byddwch yn cwyno wrthym, ni chaiff hyn ei ddefnyddio yn ei erbyn, ac ni fyddwch yn mynd i helynt.
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi os gallwn ymchwilio i'ch cwyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl ei derbyn.
- Gallwn hefyd ymchwilio os nad yw'r carchar yn ymateb i'ch cwyn cyn pen 6 wythnos.

Mae IPCI yn rhan o'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO).

# Am beth alla i gwyno?

**Gallwch gwyno wrth IPCI am faterion o bob math mewn carchardai, gan gynnwys:**

- ✔ Eiddo wedi ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi.
- ✔ Os ydych yn teimlo na chafodd y broses gywir ei dilyn ar gyfer dyfarniadau a chymhellion a breintiau a enillir (IEP).
- ✔ Bwlio, bygwth neu aflonyddu gan aelodau o'r staff.
- ✔ Os ydych yn anfodlon â'r amodau yn y carchar neu'r gyfundrefn garchardai.
- ✔ Gorfod gadael swydd yn annheg neu golli tâl.
- ✔ Defnydd amhriodol o rym gan staff.

Yn gyffredinol, ni allwn ymchwilio os oes mwy na 3 mis wedi mynd heibio ers i'r carchar roi ei ymateb terfynol i'ch cwyn wreiddiol.

Os na allwn ymchwilio i'ch cwyn, mae'n bosibl y gallwn eich cyfeirio at rywun a all helpu.

**Yn ymchwilio'n annibynnol i gwynion ar eich rhan**

6.8555_PPO_IPCI_Tri-fold leaflet_v6a_Web_CY.indd 2 23-05-2024 19:00:36